National Cardiovascular Research Network

Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd

AURORA

Gwneud Ymchwil i'r Galon a Chylchrediad yn Fwy Cynhwysol

CANLLAW AR GYFER GWNEUD CAIS

TROSOLWG

Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd (NCRN) yn falch o groesawu ceisiadau ar gyfer menter the **AURORA** – ***A**ddressing **U**nder-**R**epresentation through **O**utreach and **R**esearch **A**ccess.*

Sefydlwyd AURORA i helpu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirdymor mewn iechyd cardiofasgwlaidd trwy wneud ymchwil yn fwy cynhwysol, hygyrch a pherthnasol i'r cymunedau hynny sydd wedi cael eu tangynrychioli yn hanesyddol mewn astudiaethau iechyd.

Mae'r cyfle cyllido hwn yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau **allgymorth cymunedol** ac **ymgysylltu â'r cyhoedd**. Mae wedi'i anelu at ymgysylltu â phobl a chymunedau y mae clefyd y galon a chylchrediad yn fwy tebygol o effeithio arnynt, gan gynnwys:

- Oedolion hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal
- Pobl ifanc
- Pobl o gefndiroedd difreintiedig
- Menywod o gymunedau ethnig amrywiol
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig neu ardaloedd gwledig
- Menywod sydd â ffactorau risg penodol (megis mynd trwy'r menopos neu'n cael heriau iechyd meddwl).

Rydym yn croesawu dulliau creadigol, wedi'u teilwra'n lleol, o ymgysylltu â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. Gallai'r rhain gynnwys gweithgareddau sydd wedi'u datblygu ar y cyd, allgymorth sy'n berthnasol yn ddiwylliannol, mentrau wedi'u harwain gan gymheiriaid, neu ffyrdd newydd o ddefnyddio platfformau digidol neu blatfformau wyneb yn wyneb i feithrin ymddiriedaeth a goresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan. Caiff ymgeiswyr eu hannog i feddwl yn gydweithredol a manteisio ar wybodaeth leol a phrofiad bywyd i lywio ymgysylltu ystyrlon.

Nod gyffredinol AURORA yw adeiladu perthnasoedd cryfach rhwng ymchwilwyr a'r cymunedau hyn, fel y gallant gymryd mwy o ran mewn ymchwil sy'n effeithio ar eu hiechyd. Trwy'r fenter hon, bydd NCRN yn cefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth, gwella addysg a sicrhau bod gan gleifion a'r cyhoedd lais ystyrlon mewn llunio ymchwil gardiofasgwlaidd.

PWY ALL WNEUD CAIS?

Ymgeiswyr: Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan unigolion a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys:

- Elusennau, mentrau cymdeithasol

- Gweithwyr a sefydliadau'r GIG
- Sefydliadau iechyd yn y gymuned
- Grwpiau cymunedol, grwpiau cleifion, grwpiau gofal cymdeithasol
- Awdurdodau Lleol
- Ysgolion, grwpiau ieuenctid
- Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau)

Os hoffech drafod a ydych chi'n gymwys neu addasrwydd eich cais i fenter AURORA, cysylltwch ag admin@NCRN.uk

BETH FYDD Y GRONFA HON YN TALU AMDANO?

Gall arian gael ei ddefnyddio i dalu am	Ni all y gronfa hon gael ei defnyddio i dalu am
Gweithgareddau Allgymorth neu Ymgysylltu â Chleifion neu'r Cyhoedd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: ✓ Llogi Cyfleusterau / Lleoliad ✓ Bwyd a lluniaeth (ac eithrio alcohol) ✓ Treuliau teithio ✓ Treuliau cyfranogwyr ✓ Cymorth â hygyrchedd ✓ Costau deunyddiau traul, fel argraffu a deunydd swyddfa ✓ Offer ymgysylltu digidol ✓ Hysbysebu a hyrwyddo	× Cyfarpar / caledwedd × Amser staff × Gorbenion × Presenoldeb mewn cynadleddau × Gweithgareddau y cafwyd cyllid arall ar eu cyfer, oni bai bod ychwanegolrwydd clir × TAW, lle gellir ei hadhawlio × Gweithgareddau sy'n gwneud elw

Swm y Dyfarniad: Byddwn yn ystyried ceisiadau am hyd at £2,000 o gyllid, ar gyfer costau uniongyrchol yn unig. Mewn achosion eithriadol, gall prosiectau dros £2,000 gael eu hystyried – cysylltwch ag admin@ncrn.uk i drafod hyn ymhellach.

Hyd y Dyfarniad: hyd at 6 mis
Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais: Nid oes dyddiad cau ar gyfer gwneud cais – rydym yn rhagweld dyfarnu cyllid hyd at bedair gwaith y flwyddyn, gan gyfleu penderfyniadau cyn pen 3 mis ar y mwyaf ar ôl gwneud y cais.

MEINI PRAWF DEWIS

Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu gan banel cyllido AURORA NCRN, sy'n cynnwys aelodau o Dîm Arwain NCRN, Prifysgolion a phartneriaid y GIG, a phobl â phrofiad bywyd, gan gynnwys cleifion ac aelodau'r cyhoedd. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn unol â'r meini prawf isod:

✓ **Perthnasedd ac addasrwydd**
- A yw eich prosiect/gweithgaredd yn cefnogi nodau NCRN a menter AURORA yn glir?
- A yw'n canolbwyntio ar grwpiau neu gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ym maes ymchwil gardiofasgwlaidd?
- A yw'n bosibl cyflawni'r gweithgareddau o fewn yr amser a'r gyllideb?

- ✓ **Ansawdd y cynllun ymgysylltu –**
  - Sut mae'r gweithgareddau wedi'u teilwra i'r gynulleidfa darged?
  - A ddyluniwyd eich gweithgareddau i fod yn gynhwysol ac yn ddiddorol? Er enghraifft, a fyddwch chi'n defnyddio gweithdai, cynhyrchu ar y cyd, neu ddulliau creadigol eraill?
  - A yw eich cynulleidfa darged wedi'i diffinio'n glir, gyda ffocws ar grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli?
- ✓ **Budd disgwyliedig**
  - A fydd eich gweithgaredd yn helpu i godi ymwybyddiaeth, annog cyfranogiad, neu gefnogi ymwneud ag ymchwil gardiofasgwlaidd y mae NCRN yn ymgymryd â hi?
- ✓ **Gwerth am arian**
  - A yw'r costau yn rhesymol ac wedi'u cysylltu'n glir â'r gweithgareddau a'r deilliannau a ddisgrifioch?
- ✓ **Cydweithrediadau:**
  - A oes tystiolaeth o gydweithredu ag eraill?
  - A ydych chi wedi cysylltu ag NCRN i drafod eich cais?
  - Rydym ni'n annog ceisiadau sy'n cynnwys gweithio ar draws sectorau gwahanol – er enghraifft partneriaethau rhwng prifysgolion, y GIG, elusennau, neu ddiwydiant.

SUT GALLA' I WNEUD CAIS?

Cyn dechrau eich cais, rydym yn eich annog i gysylltu ag NCRN i drafod eich cais. Nid yw hyn yn orfodol, ond caiff ei annog.

Anfonwch eich ffurflen gais orffenedig drwy e-bost at admin@ncrn.uk.

Bydd y panel cyllido yn cyfarfod hyd at bedair gwaith y flwyddyn a'n nod yw hysbysu ymgeiswyr cyn gynted â phosibl yn dilyn cyfarfod y panel. Rydym wir yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddir i bob cais. Er na allwn roi adborth manwl ar geisiadau aflwyddiannus, gwnawn ein gorau i gyfeirio at gyfleoedd cyllido eraill, lle bo'n bosibl.

CYSYLLTU Â NI
Am ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio, cysylltwch â: **admin@ncrn.uk**